## Iacháu Mam-yng-nghyfraith Pedr

**Marc 1:29–34**

Y mae'r weithred hon o iacháu yn gwbl wahanol i'r gwyrthiau eraill a gyflawnodd Iesu. Gweithred syml ydoedd o fewn cylch teulu. Nid yw'r tyrfaoedd yn gweld y weithred er eu bod yn agos iawn. Ond mater preifat ydoedd mewn gwirionedd, a Iesu'n gweld fod salwch mam-yng-nghyfraith un o'i ddisgyblion amlycaf, Pedr, wedi peri gofid i lawer, ac yn arbennig o fewn y teulu i wraig Pedr ac i'w frawd Andreas.

Yr oedd iacháu'r wraig hon, na wyddom ei henw mwy nag enw ei merch, yn chwyldroadol. Ond yr oedd y ffordd y cyflawnodd Iesu'r weithred yn fwy chwyldroadol fyth. Dioddefai'r wraig o dwymyn llosgfaol. Yr oedd y dwymyn yn gyffredin yng Ngalilea yn nyddiau Iesu, ac yn wir yn ein dyddiau ni.

Ceir yn y Talmwd, ysgrythurau'r Iddew, gyfarwyddiadau ynglŷn â'r ffordd i wella'r clwyf (Exodus 3:2–5). Credai'r gwrachod fod ganddynt hwythau iachâd i'r clwyf. Anwybyddodd Iesu Grist y dull ofergoelus o'i iacháu, a chyda gweithred o dynerwch a thosturi, 'gafaelodd yn ei llaw a'i chodi' a dweud y gair. 'Gadawodd y dwymyn hi, a dechreuodd hithau weini arnynt.'

Y mae'r weithred hon yn taflu goleuni arbennig ar Iesu a Simon Pedr. Nid oedd Pedr wedi adnabod Iesu yn hir, ond yr oedd wedi ei adnabod yn ddigon da i wybod fod y Gwaredwr yn Feddyg ac yn gofalu ar ôl y gwan a'r claf, a'i fod yn disgwyl i bob un o'i ddisgyblion wybod am weinidogaeth gofal.

Diolch hefyd i Pedr am ei ofal am fam ei wraig. Mae'n bosibl mai ystyriaeth ddigon hunanol oedd y tu ôl i'r gofal. Gwelai'r bwrdd cinio'n wag. Yn ôl traddodiad yr Iddew, daw'r pryd bwyd yn syth ar ôl gwasanaeth y Synagog, ar y chweched awr; hynny yw deuddeg o'r gloch, sef hanner dydd. Mae diwrnod yr Iddew uniongred yn cychwyn am 6 o'r gloch y bore, ac felly'r chweched awr yw 12 o'r gloch. Bu llawenydd mawr yng Nghapernaum pan gyflawnodd Iesu'r weithred hardd hon o iachâd ar un o wragedd dienw'r efengylau.

***D. Ben Rees***

## Gweddi am Iachâd

O Iesu'r Meddyg da, diolchwn am dy ofal amdanom ni oll, ac am ein dysgu mai dyna oedd profiad yr aelwyd yng Nghapernaum a phrofiad plant Duw ym mhob cenhedlaeth.

'Duw a ŵyr dy holl bryderon,
Agos yw
Dynol-ryw
Beunydd at ei galon.'

Yr ydym yn diolch heddiw am yr iacháu sy'n digwydd yn ein byd ac yn ein cylch, am allu'r llawfeddygon a'r meddygon, am y gweinyddesau, am dechnoleg a holl waith y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol. A diolchwn, wedi i'r afiechydon ymadael, ein bod ninnau'n medru ymateb i anghenion a galwadau ein dydd.

Defnyddiwyd y gair 'twymyn' gan esbonwyr i bwysleisio fod angen iachâd cyn y medrwn wir wasanaethu. Dyna fwrdwn yr ysgolhaig Jerôm, mewn pregeth o'i eiddo, pan drigai ym Methlehem, Jwdea.

'O na ddeuai'r Meddyg Da i'n cartref i'n hiacháu o dwymyn ein pechod trwy ei gyfarchiad. Y mae pob un ohonom yn dioddef o'r dwymyn. Pan af yn flin, yr wyf yn y dwymyn. Cymaint o feiau, a llawer twymyn fel canlyniad. Dewch i ni ofyn i'r apostolion i alw ar Iesu i ddod atom ac i gyffwrdd â'n dwylo. Pan gyffyrdda ef â'n llaw, fe aiff y dwymyn ymaith.'

**Gweddïodd J. H. Newman:**

'O Arglwydd, cadw ni ar hyd y dydd hir, hyd nes y bydd twymyn bywyd wedi mynd heibio, a'r gwaith wedi ei gyflawni'. Mae'n bosibl cyflawni gwaith a gwyrthiau'r Efengyl ar ôl derbyn iachawdwriaeth y Gwaredwr. Dyna neges emyn cofiadwy'r gweinidog disglair a wasanaethodd Gymry Penbedw rhwng y ddau Ryfel Byd, Dr J. Gruffydd Moelwyn Hughes:

'Ti, Arglwydd nef a daear,
bywha'n calonnau gwyw,
dysg in gyfrinach marw,
dysg in gyfrinach byw.
Rho glust i glywed neges
dy fywyd di dy hun;
rho lygad wêl ei gyfle
i wasanaethu dyn.'

Fe ddaw'r gwasanaeth ar ôl derbyn y feddyginiaeth: 'Edifarhewch, a chredwch yr Efengyl'.